# CAIS AM DDYFYNBRIS:

# Adolygiad o Arweinyddiaeth mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO)

Ionawr 2022


ColegauCymru
Uned 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## 1. Gwybodaeth am y Cwmni

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | Colleges Wales / Colegau Cymru Cyfyngedig<br>(Rhiant-gwmni Fforwm Services Limited) |
| **Rhif y Cwmni** | 2832103 |
| **Rhif Elusen** | 1060182 |
| **Is-gwmni** | Fforwm Services Limited |
| **Rhif yr Is-gwmni** | 3066192 |
| **Rhif TAW** | 655 9801 02 |
| **Swyddfa Gofrestredig a swyddfa gweithredu** | Uned 7, Cae Gwyrdd<br>Greenmeadow Springs<br>Tongwynlais<br>Caerdydd<br>CF14 7TE |
| **Arweinydd y Prosiect** | Kelly Edwards |
| **Ffôn** | 029 2052 2500 |
| **E-bost cyswllt** | kelly.edwards@colegaucymru.ac.uk |

## 2. Cefndir

Elusen addysg sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru yw ColegauCymru. Credwn fod gan bob dysgwr yr hawl i addysg o safon fyd-eang, a ddarperir mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi.

Rydym hefyd yn cynnull y Fforwm Penaethiaid Addysg Bellach, sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr addysg bellach (AB).

Rydym yn ymgymryd ag ymchwil a datblygiad polisi ac yn rhoi cymorth ymarferol i'r gymuned AB. Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, eu hasiantaethau a rhanddeiliaid eraill, rydym yn helpu i lunio polisïau sy'n effeithio ar y sector AB, eu dysgwyr a'u staff.

ColegauCymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.

Mae Fforwm Services Limited yn gwmni cyfyngedig preifat ac yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i ColegauCymru. Mae'n llwyfan lle mae gweithgarwch masnachol sy'n cynhyrchu incwm yn cael ei sianelu, ac sy'n ein galluogi i hwyluso digwyddiadau, hyfforddiant a chynadleddau sy'n benodol i'r sector.

## 3. Rhesymeg

3.1 Gyda chyllid grant gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), mae ColegauCymru yn arwain prosiect newydd i adolygu arweinyddiaeth yn y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO).

3.2 Sefydlwyd Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru yn 2018, o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Fel corff hyd braich, ei brif rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru.

3.3 Prif ddiben yr Academi Arweinyddiaeth yw:

- Cyfrannu at ddatblygiad galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol a’r rhai sy’n dyheu i fod yn arweinwyr ar draws y system addysg, drwy ddarparu cydlyniad a sicrwydd ansawdd ar gyfer yr ystod o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru
- Gweithredu fel arweinydd meddwl; yn datblygu, mynegi a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru
- Bod yn aelod gweithgar ac uchel ei barch o'r haen ganol ym myd addysg, y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y gweithlu addysg mewn perthynas â materion arweinyddiaeth.

3.4 Mae ColegauCymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Academi Arweinyddiaeth i ddod o hyd i gontractwr addas sy’n meddu ar adnabyddiaeth o’r sector AHO yng Nghymru i gynnal adolygiad manwl o arweinyddiaeth yn y sector a darparu cyfres o argymhellion annibynnol ar gyfer llunwyr polisi a sefydliadau.

## 4. Yr Ymchwil

4.1 Diben yr adolygiad yw creu darlun clir o gyflwr presennol arweinyddiaeth addysgol yn y sector ôl-16, a llunio cyfres o argymhellion ar sail tystiolaeth sy’n gallu hysbysu sut mae'r Academi Arweinyddiaeth a'i phartneriaid yn datblygu dull strategol o gefnogi arweinwyr a datblygu arweinyddiaeth ym maes AHO yn ystod cyfnod ei gylch gwaith nesaf (hyd at 2026).

4.2 Mae ColegauCymru yn gwahodd cynigion gan sefydliadau a fydd yn cynnal yr astudiaeth i ddarparu mewnwelediad i’r canlynol:

i. Maint a nodweddion y boblogaeth arweinwyr ym maes ôl-16 (gan gynnwys: dadansoddiad o fathau o rôl; blynyddoedd o brofiad yn ôl math o rôl; llwybr(au) i arweinyddiaeth; ystadegau ar rywedd, cefndir ethnig, hyfedredd yn y Gymraeg ac ati; cymwysterau ac ati.
ii. Recriwtio, cadw, rheoli talent a chynllunio olyniaeth
iii. Natur y 'cynnig' dysgu proffesiynol presennol i arweinwyr – a’r hyn sydd ei angen
iv. Rhwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) rhag symud i rolau arwain, camu ymlaen i uwch arweinyddiaeth, ac aros mewn rolau arwain
v. Profiad arweinwyr o'u lles eu hunain a lles eraill

## 5. Gofynion

5.1 Mae disgwyl i'r cyflenwr ymgymryd ag ymchwil a fydd yn cyflawni'r penawdau a nodir yn Adran 4. Dylai'r cyflenwr gyflwyno'r gwaith i ColegauCymru ar ffurf adroddiad terfynol o oddeutu 12,000 o eiriau. Mae’n ofynnol i'r adroddiad terfynol fod yn ddogfen MS Word ddwyieithog, gydag 1 copi yn Gymraeg ac 1 copi yn Saesneg i gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg ColegauCymru. Rydym yn mabwysiadu'r egwyddor wrth gynnal ein busnes cyhoeddus yng Nghymru na fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae copi o'n cynllun ar gael ar ein gwefan.

5.2 Disgwylir i'r gwaith ddechrau ar 21 Chwefror 2022 gydag adroddiad drafft i'w gwblhau erbyn 30 Mehefin 2022 a'r adroddiad terfynol erbyn 27 Gorffennaf 2022.

5.3 Bydd y fethodoleg ddisgwyliedig yn cynnwys ymagwedd dull cymysg gan ddefnyddio setiau data meintiol sy’n bodoli eisoes (y rhai a gaiff eu cyhoeddi a'r rhai a gedwir gan sefydliadau unigol) a data ansoddol (drwy gyfweliadau lled-strwythuredig newydd a/neu grwpiau ffocws gydag arweinwyr (cyfredol, blaenorol a darpar arweinwyr) o'r sector). Bydd yr ail elfen yn ychwanegu tystiolaeth sy'n datgelu agweddau arweinwyr ac yn manylu ar eu profiadau gwirioneddol. Bydd data meintiol yn cynrychioli'r sector a chaiff data ansoddol ei gasglu o'r ystod ehangaf bosibl o gyfranwyr (gan ystyried natur amrywiol y sector).

5.4 Mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer monitro a diweddariadau prosiect i'w gweld isod a chânt eu cadarnhau yng nghyfarfod cychwyn y prosiect:

| **Cyfarfod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cychwyn y Prosiect | 21 Chwefror 2022 |
| Cyfarfod yr adroddiad terfynol drafft | 30 Mehefin 2022 |
| Cyfarfod yr adroddiad terfynol | 27 Gorffennaf 2022 |

5.5 Disgwylir i gyflenwyr, fel rhan o'u cais, ddatgan unrhyw berthynas neu gysylltiad â pherson neu bersonau sy'n gyflogai sylweddol, wedi'u hethol neu eu henwebu yn y sefydliadau sy'n dod o fewn cwmpas yr arolwg.

5.6 Disgwylir i'r cyflenwr gwblhau atodlen brisio gan gynnwys TAW. Uchafswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn yw £18,000 gan gynnwys TAW.

## 6. Defnyddio Canfyddiadau

6.1 Unwaith y bydd yr ymchwil wedi'i chwblhau, caiff y ddogfen ei defnyddio i ddarparu adborth i Fwrdd ColegauCymru a'r Fforwm Penaethiaid.

6.2 Bydd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion, gan gynnwys rhai ar gyfer Llywodraeth Cymru, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru a'i phartneriaid, a sefydliadau addysgol.

6.3 Dylai'r ymchwil fod ar ffurf y gellid ei chyhoeddi fel dogfen adroddiad annibynnol.

## 7. Amserlen

7.1 Mae'r amserlenni fel a ganlyn:

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| 31 Ionawr 2022 | ColegauCymru i gyhoeddi gwahoddiad i ddarparu dyfynbris i sefydliadau dethol a rhannu hyn ar ei wefan |
| 14 Chwefror 2022 | Cynigion yn cael eu cyflwyno i ColegauCymru / Fforwm Services Limited |
| 17 Chwefror 2022 | Y sefydliad llwyddiannus yn cael ei hysbysu a chontractio’n mynd rhagddo |
| 21 Chwefror 2022 | Dechrau'r prosiect |
| 15 Gorffennaf 2022 | Adroddiad ac argymhellion drafft yn cael eu cyflwyno i ColegauCymru a'r Academi Arweinyddiaeth |
| 27 Gorffennaf 2022 | Adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r Academi Arweinyddiaeth a ColegauCymru |

Dylid cyflwyno cynigion drwy e-bost i kelly.edwards@colegaucymru.ac.uk erbyn **5.00yp ddydd Llun 14 Chwefror 2022**. Mae tîm y prosiect yn croesawu ymholiadau ynglŷn â'r dyfynbris hwn hyd at ddydd Llun 7 Chwefror 2022. Ni fydd unrhyw ohebiaeth nac ymholiadau yn cael sylw yn ystod y cyfnod pan fydd penderfyniad am y contract yn cael ei wneud.